

| | |
|-------------------|---|
| Pwyllgor : | Y PWYLLGOR SAFONAU |
| Dyddiad : | 4 Tachwedd 2019 |
| Teitl : | Cofresr Rhoddion a Lletygarwch |
| Awdur : | Uwch Gyfreithiwr (Corfforaethol) |
| Pwrpas : | Er gwybodaeth |

Cefndir

1. Cyflwynir yr adroddiad hwn i'r Pwyllgor fel rhan o'i waith o fonitro safonau o fewn y Cyngor.
2. Mae Cod Ymddygiad Cyngor Gwynedd yn ei gwneud dyn ofynnol i aelodau gofrestru unrhwy gynnig o letygarwch, buddiant materol neu fantais sy'n werth mwy na £25 pe derbynir y cynnig hwnnw ai peidio
3. Mae ffurflen bwrpasol ar gael i gofrestru cynigion o'r fath ac mae copi wedi ei hatodi fel Atodiad 1.

Y Protocol

4. Mabwysiadodd y Cyngor Brotool ar Roddion a Lletygarwch Aelodau yn 2004. Yn sgil cyhoeddi Cod Ymddygiad newydd a Chanllawiau gan yr Ombwdsmon adolygwyd y Protocol gan y Pwyllgor Safonau, gan gyflwyno ei argymhellion ar gyfer diwygio'r Protocol i'r Cyngor Llawn. Mabwysiadwyd y Protocol cyfredol gan y Cyngor ar 2 Mai 2013.
5. Atodir copi o'r Protocol fel Atodiad 2.

Y Gofrestr

6. Mae'r y ffurflenni papur yn cael eu cadw gyda'i gilydd ac mae hyn yn ffurfio'r gofrestr. Mae'r pwyllgor hwn yn y gorffennol wedi trafod priodoldeb cyhoeddi'r gofrestr ar y wefan y Cyngor. Penderfynwyd bryd hynny (2014) na ddylid gwneud am y tro. Erbyn hyn mae'n orfodol rhoi'r Gofrestr Fuddiannau ar y we ond nid yw'r un orfodaeth yn ymestyn i'r Gofrestr Rhoddion a Lletygarwch.

Dadansoddiad

7. Dadansoddwyd y datganiadau ar y gofrestr gyfredol a cheir y canlyniadau isod:

| Dyddiad ffurflen | Rhodd/lletygarwch | Derbyniwyd / gwrthodwyd | Gwerth |
|------------------|--|-------------------------|--------------|
| 27/07/27 | Cinio busnes cyn cyfarfod Panel Buddsoddi yn swyddfeydd Black Rock, Llundain | Derbyniwyd | Tua £30 |
| 27/07/17 | Fel yr uchod | Fel yr uchod | Fel yr uchod |
| 27/07/27 | Fel yr uchod | Fel yr uchod | Fel yr uchod |
| 27/007/17 | Fel yr uchod | Fel yr uchod | Fel yr uchod |
| 26/10/18 | Blodau wedi eu gadael ar y stepen ddrws | Derbyn | £25 |

Argymhelliad

7. Gofynnir i'r Pwyllgor:

- (a) nodi a derbyn cynnwys yr adroddiad
- (b) gynnig unrhyw sylwadau ar yr adroddiad